

SYR NICHOLAS WINTON



Ganwyd Syr Nicholas Winton yn Hampstead, Llundain ym 1909. Dros gyfnod o naw mis ym 1939 llwyddodd i achub 669 o blant o Tsiecoslofacia, gan ddod â nhw i'r DU ac felly'u harbed rhag erchylltra'r Holocaust.

HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST



Bu farw Syr Nicholas ym mis Gorffennaf 2015, yn 106 oed.

'Pam ydych chi'n gwneud cymaint o ffws? Wnes i ddim gwneud llawer; ro'n i yn y man iawn ar yr amser iawn.'

Er gwaethaf agwedd ddiymhongar ac ysbrydoledig Syr Nicholas, roedd mwy i'r stori na bod yn y man iawn ar yr amser iawn, fel y gwelwn o hanes ei fywyd.

Ganwyd Syr Nicholas Winton yn Hampstead ym 1909 i rieni Iddewig.

Ym mis Rhagfyr 1983, yn 29 oed, canslodd Winton wyliau sgïo ar ôl i'w ffrind Martin Blake erfyn arno i fynd i Brag i weld y sefyllfa enbyd gyda'i lygaid ei hun. Roedd ffoaduriaid yn heidio yno ar ôl i'r Almaen feddiannu Sudetenland, rhan o Tsiecoslofacia gydag Almaeneg fel y brif iaith. Teithiodd Winton i Tsiecoslofacia, ac yno anfonodd Doreen Warriner ef i weld nifer o wersylloedd crynhoi. Roedd Blake a Warriner yn gweithio gyda sefydliad i helpu i ddod o hyd i gartrefi newydd i'r oedolion, a buan iawn y sylweddolodd Winton fod rhaid gwneud rhywbeth i achub y plant hefyd. **Ni allai sefyll o'r neilltu.**

Kristallnacht (9 a 10 Tachwedd 1938) oedd dechrau ymgyrch o gasineb gan y Natsïaid yn erbyn yr Iddewon yn holl diriogaethau'r Natsïaid. Lladdwyd rhyw 91 o Iddewon, arestwyd 30,000, a dinistriwyd 267 o synagogau. Ar ôl hyn, llaciodd llywodraeth Prydain ei chyfreithiau mewnfudo a chytunodd i dderbyn nifer gyfyngedig o blant o'r Almaen ac Awstria. Y *Kindertransport* oedd enw'r rhaglen, a llwyddwyd i symud 10,000 o blant i Brydain. Gofynnodd Winton i'r llywodraeth ganiatáu i rai o blant Tsiecoslofacia ddod i'r DU hefyd; cafodd ganiatâd ar yr amod ei fod yn dod o hyd i deulu i ofalu am bob un o'r plant nes ei fod yn 18 oed, a bod y teulu'n talu gwarant o £50 ar gyfer y plentyn hwnnw.

Gweithiodd Winton ar y cyd â chriw o wirfoddolwyr – yn cynnwys ei fam – yn ddiflino i drefnu popeth oedd ei angen ar gyfer y plant, yn cynnwys dod o hyd i deuluoedd i ofalu amdanynt a chodi arian i dalu eu costau teithio.

Llwyddodd Winton i ddod â 669 o blant i'r DU dros y misoedd nesaf, y mwyafrif ohonyn nhw'n Iddewon. Roedd y trê olaf o blant i fod i adael ar 1 Medi 1939 ond cafodd ei ganslo wrth i'r rhyfel ddechrau. Yn ôl Winton, ni chlywyd sôn am y 250 o blant ar y trê fyth eto. Roedd hyn yn destun gofid mawr iddo.

Er bod llawer o'r plant yn gobeithio gweld eu rhieni a'u teuluoedd unwaith yn rhagor ar ôl y rhyfel, clywodd y rhan fwyaf fod eu rhieni wedi cael eu llofruddio yn yr Holocaust. Diolch i ymdrechion Winton a'i gydweithwyr, yn cynnwys Trevor Chadwick a Doreen Warriner, a oedd yn creu rhestrau o'r plant ac yn teithio gyda nhw ar y trenau, fe lwyddon nhw i osgoi'r un ffawd.



@hmd_uk

hmd.org.uk



/hmd.org.uk

Yn ystod y rhyfel, bu Nicholas Winton yn gyrru ambiwlans, cyn ymuno â'r RAF. Ar ôl y rhyfel, ymunodd Winton â'r Banc Rhyngwladol ym Mharis, lle cwrddodd â'i wraig, Grete. Fe gawson nhw dri o blant ond, yn anffodus, bu farw un ohonyn nhw'r diwrnod cyn ei ben-blwydd yn saith oed. Wedi iddo ymdeol, treuliodd Winton lawer o'i amser yn gwirfoddoli. Bu'n llywydd cangen Maidenhead o elusen Mencap am fwy na deugain mlynedd ac ef oedd llywydd ac yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Abbeyfield Maidenhead.

Nid oedd Winton yn cuddio'r hyn a wnaeth ym 1939 ond ychydig iawn o bobl oedd yn gwybod yr hanes oherwydd nad oedd Winton yn meddwl ei fod wedi gwneud unrhyw beth allan o'r cyffredin. Flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd Winton yn ceisio rhoi ei bapurau, a oedd yn enwi'r plant ac yn eu paru â theuluoedd, i archifdy neu amgueddfa. Yn fuan wedyn, cafodd Winton wahoddiad i ymddangos ar y rhaglen deledu *That's Life!* Er mawr syndod iddo, roedd cynhyrchwyr y rhaglen wedi trefnu aduniad gyda rhai o'r plant roedd wedi'u hachub, yn cynnwys Vera Schaufeld. Doedd y rhan fwyaf o'r plant ddim yn gwybod pwy oedd wedi'u hachub tan y foment honno, ac roedd hi'n anrhydedd ac yn fraint go iawn iddyn nhw ddod wyneb yn wyneb â'r gŵr oedd wedi'u hachub.

Cafodd Winton ei anrhydeddu sawl gwaith – cafodd ei urddo'n farchog, rhoddwyd Rhyddfrait Dinasoedd Prag a Llundain iddo, a derbyniodd Urdd y Llew Gwyn, anrhydedd uchaf un y Weriniaeth Tsiec.

Roedd Syr Nicholas Winton yn ysbrydoliaeth i lawer, ym mhedwar ban byd. Mynnai y byddai unrhyw un wedi gwneud yr un fath. Ond wnaethon nhw ddim – dim ond sefyll o'r neilltu.



Paratowyd yr hanes bywyd hwn gyda chymorth Barbara Winton, merch Syr Nicholas.

I wybod mwy:

- Darllenwch hanes Vera Schaufeld, un o'r plant a achubwyd gan Syr Nicholas Winton hmd.org.uk/vera
- Darllenwch fwy am yr Holocaust: hmd.org.uk/holocaust
- Darllenwch *If it's Not Impossible...: The Life of Sir Nicholas Winton* gan Barbara Winton
- Gwylwch Syr Nicholas ar 'That's Life': https://www.youtube.com/watch?v=6_nFuJAF5F0



@hmd_uk

hmd.org.uk



[/hmd.org.uk](https://www.facebook.com/hmd.org.uk)